

# Ysgol Aberconwy

Llyfryn Gwybodaeth i Fyfyrrwyr  
Arholiadau  
2023/2024

YSGOL  
ABERCONWY



## **CYFLWYNIAD**

Darllenwch y llyfryn hwn yn ofalus fel eich bod yn ymwybodol o'r rheoliadau a gweithdrefnau arholi.

Cewch hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys amserlenni arholiadau, ar wefan yr ysgol a'r hysbysfwrdd arholiadau.

Rhaid i bob ymgeisydd arholiad wneud y canlynol:

1. Darllen a deall yr hysbysiadau JCQ canlynol i ymgeiswyr sydd ar wefan yr ysgol:
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr – arholiadau ysgrifenedig
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr – profion ar y sgrin
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr – gwaith cwrs
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr – cyfryngau cymdeithasol
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr – Hysbysiad Preifatrwydd
2. Gwiriwch amserlenni unigol yn ofalus. Os oes gennych unrhyw bryderon am yr arholiadau yr ydych wedi'ch cofrestru ar eu cyfer, ewch i weld Mrs Baxter, y swyddog arholiadau.
3. Gwnewch yn siŵr fod gan yr ysgol rif ffôn cyfredol ar eich cyfer.
4. Rhowch wybod i'r ysgol os ydych chi'n sâl yn ystod eich paratoad ar gyfer arholiadau neu yn ystod y cyfnod arholiadau oherwydd efallai y gallwn wneud cais am ystyriaeth arbennig.

## **Cwestiynau a ofynnir yn aml:**

### **1. Beth yw Asesiadau Di-Arholiad (ADA)?**

Fe'u cyflwynwyd ar gyfer TGAU yn 2009 ac maent yn rhan o'r asesiad cyffredinol. Maent ychydig yn wahanol i waith cwrs, gan fod yn rhaid cwblhau'r dasg olaf o dan amodau rheoledig yn ystod amser gwersi dan oruchwyliaeth yr athro pwnc.

### **2. Pam fod Ffug arholiadau yn cael eu rhedeg fel petaent yn arholiadau go iawn?**

Mae hyn er mwyn rhoi cyfle i chi ymarfer ar gyfer yr arholiadau go iawn, gan gynnwys dod â'r offer cywir, deall eich amserlen, deall cynllun eistedd yr ystafell arholiad a dilyn yr hysbysiadau a'r cyfarwyddiadau JCQ ar gyfer ymgeiswyr.

Ar gyfer tymor arholiadau 2020 a 2021, roedd ffug arholiadau yn rhan o'r dystiolaeth o ddysgu ac fe'u defnyddiwyd tuag at y radd gymhwyster terfynol.

Mae'n bwysig defnyddio'r ffug arholiadau i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer yr arholiadau go iawn ym mis Mehefin a Gorffennaf.

- Nodwch pam y cawsoch y canlyniadau a wnaethoch (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)
- Nodwch feysydd gwendid
- Gofynnwch am gymorth – siaradwch â'ch athrawon
- Ewch ati i ymarfer gwahanol strategaethau adolygu.

### **3. Beth yw fy rhif ymgeisydd (rhif arholiad)?**

Mae gan bob ymgeisydd rif ymgeisydd pedwar digid a ddefnyddir gan yr holl fyrddau arholi i'ch adnabod. Rhaid i chi ysgrifennu'r rhif hwn ar eich holl bapurau arholiad a'ch gwaith cwrs/asesiadau rheoledig. Mae eich rhif ymgeisydd yn rhan o'ch Dynodwr Ymgeisydd Unigryw neu UCI a ddangosir ar frig eich amserlen ymgeisydd unigol. Mae'r rhif yn dechrau gyda rhif y ganolfan lle gwnaethoch chi gymryd eich TGAU cyntaf. Os ewch chi ymlaen i'r chweched dosbarth neu addysg bellach yn rhywle arall, bydd angen eich UCI arnoch chi yno.

### **4. Beth yw datganiad mynediad?**

Mae'n allbrint o'r holl arholiadau allanol ysgrifenedig yr ydych wedi cael eich cofrestru ar eu cyfer mewn cyfres arholiadau benodol. Pan fyddwch chi'n derbyn hwn, bydd angen i chi ei wirio'n ofalus am unrhyw gamgymeriadau. Mae angen i chi wirio hefyd bod eich manylion personol yn gywir, fel eich enw cyfreithiol a'i sillafiad. Hefyd, gwiriwch fod eich dyddiad geni yn gywir.

### **5. Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n sylwi ar wrthdaro ar fy amserlen?**

Mae gwrthdaro yn digwydd pan fydd dau bwnc neu fwy yn cael eu hamserlenni'r un pryd. Byddwch naill ai'n sefyll un papur ar ôl y llall, yn dibynnu ar hyd yr arholiadau, neu byddwch yn cael seibiant rhwng pob arholiad. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn cael eich cadw ar wahân i bawb arall ac ni fyddwch yn cael cyfathrebu â disgyblion eraill na chael mynediad i'r rhyngrwyd neu ffôn symudol. Byddwch yn derbyn llythyr ochr yn ochr â'ch datganiad mynediad yn egluro trefn eich arholiadau. Bydd Mrs Baxter hefyd yn siarad â chi'n bersonol am yr arholiadau.

### **6. Pam fod rhaid i'r ysgol gael rhif cyswllt cyfredol i mi?**

Mae pob TGAU a Safon Uwch yn arholiad Cenedlaethol ac yn cael ei reoleiddio'n ofalus iawn. Mae pob arholiad yn cael ei gynnal ar yr un pryd ledled Cymru, Lloegr a thramor. Mae angen i ni allu cysylltu â chi os nad ydych yn yr ysgol oherwydd gallai cyrraedd arholiad yn hwyr iawn beryglu diogelwch yr arholiad.

### **7. A oes rhaid imi wisgo gwisg ysgol yn ystod arholiadau?**

Fel y gwyddoch rhaid gwisgo gwisg ysgol lawn wrth sefyll arholiadau.

### **8. Beth yw goruchwylwyr?**

Mae goruchwylwyr yn aelodau staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol. Maent ym mhob ystafell arholiad i gynnal yr arholiadau ac i ddelio ag unrhyw fater a allai godi. Ni all goruchwylwyr drafod y papur arholiad gyda chi nac esbonio'r cwestiynau. Disgwylir i chi ymddwyn mewn ffordd barchus tuag atynt a dilyn eu cyfarwyddiadau bob amser.

### **9. Beth os ydw i'n sâl neu'n cael damwain cyn yr arholiad?**

Bydd angen i chi roi gwybod i'r ysgol ar unwaith fel y gallwn eich helpu neu'ch cyngori. Rhaid i chi gael tystiolaeth feddygol (gan feddyg teulu neu ysbyty) os hoffech i'r ysgol wneud cais am ystyriaeth arbennig i chi. Gellir gwneud cais am Ystyriaeth Arbennig i'r bwrdd Arholi os na allwch gael eich ail-gofrestru ar gyfer yr arholiad yn ddiweddarach. Gwneir cais am hwn ar ôl i'r holl arholiadau gael eu cynnal.

### **10. Faint o'r gloch mae'n rhaid i mi gyrraedd ar gyfer arholiad?**

Rhaid i chi gyrraedd y tu allan i ystafell arholiad o leiaf 15 munud cyn amser cychwyn yr arholiad a drefnwyd. Mae'r holl amseroedd cychwyn ar eich amserlen unigol; gwnewch yn

siŵr eich bod chi'n gwirio'r amser oherwydd fe allech chi gael amser cychwyn gwahanol i rywun arall.

Bydd arholiadau'r bore yn dechrau am 9yb.

Bydd arholiadau'r prynhawn yn dechrau am 1yp/1.15yp

### **11. Ble mae'r cynlluniau eistedd wedi'u lleoli?**

Mae'r holl gynlluniau eistedd yn cael eu harddangos y tu allan i bob lleoliad arholiad.

### **12. Beth yw'r amodau arholiad?**

Cyn gynted ag y byddwch chi'n mynd i mewn i'r ystafell arholiad rhaid cael tawelwch llwyr; rhaid i chi beidio â siarad na chyfathrebu ag unrhyw ymgeiswyr eraill mewn unrhyw ffordd. Rhaid i chi wynebu'r blaen bob amser. Os oes angen unrhyw beth arnoch, rhaid i chi ddenu sylw'r goruchwyliwr trwy godi eich llaw.

### **13. Pa offer ddylwn i eu cymryd i mewn i'r ystafell arholiad?**

- Cas bensiliau clir (tryloyw)
- Ysgrifbinnau du – ni chaniateir ysgrifbinnau 'gel' neu las
- Pensil, hogwr a dilëwr
- Pren mesur, onglydd, cwmpawd
- Amlygwyr – ar gyfer amlygu testun neu gwestiynau – **ni ddylid eu defnyddio ar atebion.**
- Cyfrifianellau gyda'r clawr wedi'i dynnu
- Potel glir gyda'r label wedi'i thynnu ac yn cynnwys dŵr yn unig.
- Ar gyfer arholiadau Mathemateg – onglydd, cwmpawd.

**RYDYCH CHI'N GYFRIFOL AM DDARPARU EICH OFFER EICH HUNAN AR GYFER ARHOLIADAU. DIM OND DEUNYDDIAU A RESTRIR AR Y PAPUR ARHOLIAD A GANIATEIR YN YR YSTAFELL ARHOLIAD. NI CHEWCH DDOD AG UNRHYW DDEUNYDDIAU ERAILL, NA'U CADW YN EICH YMYL.**

### **14. Ffonau symudol**

Ni chewch ddod â ffôn symudol neu offer electronig eraill i mewn i'r ystafell arholiad. Os gwelwch yn dda, gadewch hwy yn eich bag y tu allan i'r ystafell arholiad. Cewch eich rhybuddio am hyn ar ddechrau pob arholiad. Os canfyddir bod gennych unrhyw beth arnoch na chaniateir, hyd yn oed os nad oeddech yn bwriadu ei ddefnyddio, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r bwrdd arholi.

### **15. Oriorau**

Ni chaniateir oriorau arddwrn / oriorau clyfar / oriorau ffitrwydd yn yr ystafell arholiadau. Rhaid eu gadael yn eich bag, y tu allan i'r ystafell arholiadau.

### **16. Beth os ydw i'n credu bod gen i'r papur arholiad anghywir?**

Gofynnir i chi wirio'ch lefel papur a haen cyn i'r arholiad ddechrau. Os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth o'i le, codwch eich llaw a dywedwch wrth y goruchwyliwr.

### **17. Beth os ydw i'n meddwl bod gwall ar y papur arholiad?**

Os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth o'i le ar y papur arholiad, codwch eich llaw a dywedwch wrth y goruchwyliwr.

**18. A allaf fynd i'r toiled yn ystod yr arholiad?**

Caniateir i chi fynd dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol. Bydd goruchwyliwr yn eich hebrwng ac ni chaniateir unrhyw amser ychwanegol i chi.

**19. Beth os ydw i'n teimlo'n sâl yn ystod yr arholiad?**

Codwch eich llaw a bydd goruchwyliwr yn eich helpu. Os effeithir ar eich perfformiad am eich bod yn teimlo'n sâl yn ystod yr arholiad, mae'n bosibl y gallwn wneud cais i'r bwrdd arholi am ystyriaeth arbennig.

**20. Beth os ydw i'n gorffen yr arholiad yn gynnar?**

Ni chaniateir i chi adael yr ystafell arholiad yn gynnar. Os ydych chi'n siŵr eich bod chi wedi gorffen y papur, defnyddiwch unrhyw amser sy'n weddill i wirio'ch atebion.

**21. Beth sy'n digwydd ar ddiwedd yr arholiad?**

Bydd y goruchwyliwr yn cyhoeddi 5 munud cyn diwedd yr arholiad a phan fydd yr arholiad wedi dod i ben. Bydd goruchwylwyr yn casglu'r holl lyfrynnau cwestiwn ac ateb. Cewch eich anfon o'r ystafell fesul rhes mewn distawrwydd. Cofiwch eich bod yn parhau i fod dan amodau arholiad nes y byddwch wedi gadael yr ystafell.

**22. Beth yw ystyriaeth arbennig?**

Ystyriaeth arbennig yw addasiad i farciau ymgeisydd sy'n gymwys ar gyfer ystyriaeth. Y bwrdd arholi sy'n penderfynu ar hyn, nid yr ysgol. Dylai rhieni fod yn ymwybodol bod unrhyw addasiad yn debygol o fod yn fach ac ni roddir adborth byth.

**23. Os ydw i'n hwyr, a ydw i'n gallu sefyll yr arholiad o hyd?**

Dylech ddod i'r ysgol cyn gynted â phosibl a rhoi gwybod i'r dderbynfa. Os yw'n dal yn bosibl i chi sefyll yr arholiad bydd aelod o'r staff yn eich hebrwng i'r ystafell arholiad. Ni chewch fynd i mewn i ystafell arholiad heb ganiatâd unwaith y bydd yr arholiad wedi dechrau. Efallai y bydd yn bosibl caniatáu amser llawn i chi ar gyfer yr arholiad.

**24. Os ydw i'n colli arholiad, a gaf i sefyll yr arholiad ar ddiwrnod arall?**

Na chewch. Mae amserlenni'n cael eu rheoleiddio gan y Bwrdd Arholi a rhaid i chi fod yn bresennol ar y dyddiad a'r amser penodedig. Os byddwch chi'n colli arholiad heb reswm da codir tâl cofrestru arnoch chi. Os ydych ym mlwyddyn 10, yna bydd cyfle i ail-sefyll yr uned ym Mlwyddyn 11, ar wahân i Lenyddiaeth Saesneg.

**25. Beth fydd yn digwydd os bydd larwm tân yn canu yn ystod yr arholiad?**

Os bydd y larwm tân yn canu yn ystod yr arholiad, bydd y goruchwylwyr yn dweud wrthyh chi beth i'w wneud. Peidiwch â chynhyrfu. Gadewch bopeth ar eich desg. Cewch eich symud mewn distawrwydd i bwynt ymgynnull dynodedig i ffwrdd o weddill yr ysgol. Rhaid i chi beidio â cheisio cyfathrebu ag unrhyw un arall yn ystod y cyfnod hwn. Pan ddychwelwch i'r ystafell arholiad, dilynwch gyfarwyddiadau'r goruchwylwyr. Caniateir i chi gael yr amser llawn i wneud yr arholiad ac anfonir adroddiad at y Bwrdd Arholi yn cynnwys manylion y digwyddiad.

## Arholiadau:

### **Ffug arholiadau:**

#### Wythnos yn dechrau:

Rhagfyr 4<sup>ydd</sup> 2023

Chwefror 26<sup>ain</sup> 2024

Mehfin 17<sup>eg</sup> – B10 (i'w gadarnhau)

### **Arholiadau allanol:**

#### Cyfes yr Hydref:

Mathemateg Rhifedd – Tachwedd 7<sup>fed</sup> & 9<sup>fed</sup> 2023

Arholiadau llafar Cymraeg iaith 1af – dyddiadau i'w cadarnhau

#### Cyfes y Gwanwyn:

B10 – Llenyddiaeth Saesneg Ionawr 10<sup>fed</sup> 2024

Arholiadau llafar Cymraeg ail iaith:

B10 - Uned 1 (hefyd ar gyfer B11 os na safwyd yr arholiad ym mlwyddyn 10 / neu ail-safwyd) – Ebrill 16<sup>eg</sup> i'r 18<sup>fed</sup>

B11 - Uned 2 – Ebrill 22<sup>ain</sup> i 24<sup>ain</sup>

Arholiadau ymarferol Gwyddoniaeth – Ionawr 8<sup>fed</sup> i Chwefror 9<sup>fed</sup> – dyddiadau penodol i'w cadarnhau

Blwyddyn 11 – arholiadau llafar ITM – Ebrill 3<sup>ydd</sup> i Fai 12<sup>fed</sup>

Ymarfer Corff Ymarferol – Mawrth i Fai

Celf – dyddiad i'w gadarnhau

Arholiadau llafar Saesneg iaith – dyddiadau i'w cadarnhau

#### Cyfes yr Haf 2024

### **O Fai 7<sup>fed</sup> i Fehefin 26<sup>ain</sup>.**

#### **B10:**

Mynediad Saesneg a Gwyddoniaeth – Mai 8<sup>fed</sup>

Llenyddiaeth Saesneg – Mai 13<sup>eg</sup> (os yn ailsefyll uned Ionawr), Mai 20<sup>fed</sup>

Hanes – Mehefin 4<sup>ydd</sup>

Bioleg/Bioleg Ddbl – Mehefin 10<sup>fed</sup>

Cemeg/Cemeg Ddbl Mehefin 13<sup>eg</sup>

Ffiseg/Ffiseg Ddbl – Mehefin 17<sup>eg</sup>

#### **B11**

Mynediad Mathemateg Rhifedd – Mai 7<sup>fed</sup>

Mynediad Saesneg a Gwyddoniaeth – Mai 8<sup>fed</sup>

Mathemateg -Rhifedd – Mai 9<sup>fed</sup>

Mathemateg – Mai 16<sup>eg</sup>,

Bioleg/Bioleg Ddbl – Mai 10<sup>fed</sup>

Cemeg/Cemeg Ddbl Mai 17<sup>eg</sup>

Ffiseg/Ffiseg Ddbl – Mai 24<sup>ain</sup>

(Efallai y bydd angen sefyll/ailsefyll unedau os yn absennol ym mlwyddyn 10)

Cymraeg/Cymraeg 2<sup>il</sup> laith – Mai 22<sup>ain</sup>, Mehefin 4<sup>ydd</sup>

Saesneg laith – Mai 23<sup>ain</sup>, Mehefin 6<sup>ed</sup>

Ffrangeg – Mai 14<sup>eg</sup>, 24<sup>ain</sup>

Sbaeneg – Mehefin 3<sup>ydd</sup>, Mehefin 10<sup>fed</sup>

Busnes – Mai 14<sup>eg</sup>, Mehefin 5<sup>ed</sup>

Hanes CBAC – Mai 15<sup>fed</sup>, Mehefin 4<sup>ydd</sup>, Mehefin 11<sup>eg</sup>

Hanes yr Hen Fyd OCR – Mai 14<sup>eg</sup>, Mai 23<sup>ain</sup>

Daaryddiaeth – Mai 17<sup>eg</sup>, Mehefin 5<sup>ed</sup>

Iechyd & Gofal Cymdeithasol – Mai 20<sup>fed</sup> (ailsefyll), Mehefin 12<sup>fed</sup>

Addysg Gorfforol – Mai 22<sup>ain</sup>

Astudiaethau Ffilm – Mai 14<sup>eg</sup>, 23<sup>ain</sup>

Adeiladu – Mehefin 14<sup>eg</sup>

Pynciau lle bydd asesiad di-arholiad yn cael ei gynnal mewn ystafelloedd dosbarth trwy gydol y flwyddyn:

Saesneg laith

Llenyddiaeth Saesneg

Bwyd & Maeth

Iechyd & Gofal Cymdeithasol

Hanes

Daaryddiaeth

Celf

Addysg Gorfforol

Dylunio & Technoleg

Adeiladu yng Ngholeg Llandrillo

### **Asesiadau BTEC – unedau mewnol ac allanol:**

Celfyddydau Perfformio – dyddiad uned allanol i'w gadarnhau

Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol – dyddiad uned allanol i'w gadarnhau

### **City & Guilds – Gwasanaethau Gwallt**

Unedau mewnol ar hyd y blynyddoedd yn B10 & B11

### **Agored Cymru – OAA**

Unedau mewnol ar hyd y blynyddoedd yn B10 & B11

## **Cyhoeddir amserlenni byrddau arholi ar wefan yr ysgol.**

Rhoddir amserlen 'Datganiad Mynediad' i fyfyrwyr ar ddiwedd mis Mawrth a fydd yn dangos eu cofrestriadau arholiadau haf 2024. Gofynnwn i'r cofnodion hyn gael eu gwirio, yn enwedig os ydynt yn gofnodion haen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ewch i weld y Swyddog Arholiadau; rydym hefyd yn gofyn i chi wirio eich manylion personol, gan mai dyma fydd yn ymddangos ar y tystysgrifau.

Ar ôl y Pasg, bydd amserlen arall yn cael ei rhoi i'r holl fyfyrwyr, a fydd yn dangos lleoliad yr arholiad a'r seddi ar gyfer pob arholiad sy'n cael ei sefyll.

## **Dyddiau Wrth Gefn**

Mae'r byrddau arholi wedi pennu'r dyddiadau hyn os bydd amhariad cenedlaethol neu leol sylweddol i arholiadau yn y DU.

Mae angen i fyfyrwyr fod ar gael ar gyfer y dyddiadau hyn:

Mehfin 6<sup>ed</sup> – prynhawn

Mehfin 13<sup>eg</sup> – prynhawn

Mehfin 26<sup>ain</sup> – trwy'r dydd

### **Swyddog Arholiadau:**

**Mrs W Baxter**

[wendy.baxter@aberconwy.conwy.sch.uk](mailto:wendy.baxter@aberconwy.conwy.sch.uk)